

Rendering of the Rev. Thomas Hughes.

As we have already stated, the two Welsh translations of "Martyrs of the Mause" placed third and fourth in our recent competition were from the same pen. The author is the Rev. Thomas Hughes, pastor of Minny-street Congregational Church, Cardiff. Below we give the poem which made the stronger appeal to the critical taste of the adjudicator, Gwili.

MERTHYRON TY'R GWEINIDOG.

Plicio'r cwrlid wnai ei ddwyllaw yn ddi-
orffwys, arwydd fin
O law gûdd â'i phwynt at derfyn oedd ger-
llaw—angeuol fin.
'Doedd ar ol ond a gyflogid i gau llygaid yr
hên was,
Er y teimlai ei un annwyl yn ei wyllo o
awyr lân.
Wrth gip-dremio'n fwyn o'i gwely pan ar
dranc dwedasai hi,
"Wedi imi fynd, f'anwylyd, unig fydd dy
drigfan di.
Caled, hirfaith, fu ein hymdaith, llwybyr
dieithr oedd a thrist,
Braidd y gall'swn i ei oddef heb adnabod
Iesu Grist.
Duw addawodd fara a dwiwr, sail cyflenwad
ydynt hwy,
Tybiaf weithiau fod ei Eiddo'n syn am greffu
ohonom fwy.
Gwerthfawrogiad o'n cydymdrech arbedasai
flwyddi trwm;
Cadw rhag fy arch eu torchau, am ein gado â
chwpwrdd llwm."
'Roedd ei geiriau yn adseinio yn ei glyw gan
gri mor hy,
Pan yn ataf yr agorwyd i'r diaconiaid ddrws
ei dy.
Crymu, sangu'n fwyn, ochneidio, wnelai'r
blaenaf un gan ddweyd,
"I ganu'n iach y daethom, fugail, diolch am
eich holl ymwneud.
A rowch genadwri fuddiol i'w chyfleu i'r
eglwys brùdd,
Hwyrach destun, neu ryw gyngor, a fydd byw
ar ol eich dydd?"
Gyda gwelw wên dosturus, gweddi am rês,
atebai e',
"Dwedaf air mewn pryd fydd gymorth i'r
hwn ddaw i lanw'm lle.
Olion oes na ddychwel mwyach yw pregethau
dwin a maith.
Ond fe erys 'gwneud mawr gyfrif o'r llafur-
wyr am eu gwaith.'
Yn eich mysg gyhyd llafuriais, dygais rai i
holttau'r Graig,
Gan fugeilio eich eneidiau heb faldodi gwr
na gwraig.
Hithau ai gan wneud elusen drwy eich tref
sydd fawr ei ffawd
Mewn gwn pryn a llwyd gan hirdraul, ac
esgidiau clytiog. tlawd.
Tra canmolech ei phêr banes—gwell nid eiddo
unrhyw ddyn—
Hawliech ein gwasanaeth deublyg heb roi tâl
i fwy nag un.
Crynwn i mewn oer fyfyrgell, chwithau
fostiech drwst eich llwydd:
Mi, â llai na chyflog 'sgubwr—bonus Duw ni
cheid i'm swydd.
Cais am chwaneg gâdd fel ateb, 'Hyn neu
achub, p'r un yw'ch nod?'
Cyddoddefwch, fy nghyfeillion. I wyr doeth
ni raid wrth glod.
Os eich molawd ; grintaehrwydd at un
leinw'm 'sgidiau llwyd,
Rhoddwch angel yn eich pulpud; ni bydd
arno eisieu bwyd."
Yna'r bugail a'u gollyngodd hwy ar encil
draw o'r fan,
Eto'n wan ei ddwyllaw bliciaf, gwyllai yntau
am y lan.

G. Times / 17/1/20

UN A WYR.